

## Byddwch yn Rhagorol !

**Ein gweledigaeth yw sicrhau disgyblion dwyieithog hyderus sy'n cyrraedd y safonau uchaf posib trwy ymdrech parhaus, cydweithio a pharchu eraill.**

**Sicrhau disgyblion hyderus sy'n rhoi o'u gorau gyda'r gallu i ddysgu yn annibynnol gyda meddylfryd o ddatblygu ei**

**hunain** - Erbyn 2020 ein gweledigaeth yw bod Ysgol Eifionydd yn anelu i sicrhau gwersi ysbrydoledig o safon dda neu uwch mewn bron pob un o'r gwersi. Byddwn yn sefydlu diwylliant o welliant parhaus trwy ymroi i ddatblygu ein hymarfer fel athrawon yn rheolaidd, gan arbrofi ac ymarfer ar sail data ac ymchwil rhyngwladol. Byddwn yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth tracio ac o dechnoleg ddigidol i gynorthwyo a chefnogi'r addysgu ble mae hynny yn briodol. Byddwn fel athrawon yn cefnogi ein gilydd er mwyn datblygu diwylliant o arsylwi anffurfiol i weld arfer dda ac i gynorthwyo fel cyfaill beirniadol.

**Sicrhau disgyblion sy'n barod i gydweithio gydag eraill, cefnogi ei gilydd a pharchu pawb** - Erbyn 2020 byddwn yn parhau i fod yn gymuned hapus sy'n sicrhau bod disgyblion yn dangos parch at ei gilydd, yr ysgol a'r gymuned ehangach. Byddwn yn cydweithio ac yn ymgynghori gyda staff, disgyblion, rhieni, y gymuned leol ac ysgolion cyfagos er mwyn sicrhau amgylchedd cefnogol sy'n datblygu disgyblion dwyieithog gwaraidd, ond uchelgeisiol. Rhoddwn bwyslais ar brydlondeb a phresenoldeb uchel fel sail i'r cynnydd. Byddwn yn gwneud defnydd o ddata academaidd ac ymddygiadol er mwyn cefnogi a herio unigolion a grwpiau penodol i roi o'u gorau ymhob maes. Byddwn yn ysgol gynhwysol sy'n sicrhau'r gefnogaeth fugeiliol angenrheidiol i ddisgyblion bregus er mwyn eu cynorthwyo i lwyddo.

**Sicrhau cwricwlwm addas a diddorol i ddisgyblion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain** - Erbyn 2020 fe fydd cwricwlwm Ysgol

Eifionydd yn un flaengar a chreadigol gyda'r pwyslais ar ddatblygu'r medrau yn bynciau neu broiectau thematig. Byddwn wedi addasu cynlluniau gwaith ein gwersi er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sylweddol sydd ar waith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Byddwn wedi cynllunio ar gyfer y cyrsiau TGAU newydd a'r BAC ar ei newydd wedd. Byddwn yn sicrhau'r amser a'r hyfforddiant arbenigol angenrheidiol i athrawon weithredu. Byddwn yn parhau i gydweithio gydag ysgolion cyfagos â'r Coleg er mwyn sicrhau arlwy dda o bynciau ac i rannu'r baich adrannol ac ysgol gyfan. Byddwn yn sicrhau fod sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol y disgyblion yn derbyn sylw trylwyr yn drawsgricwlaidd. Byddwn yn sicrhau fod y chwe maes dysgu a phrofiad 'Dyfodol Llwyddiannus - Adroddiad yr Athro Donaldson' yn cael ei ddatblygu ar draws yr ysgol. Byddwn yn cydweithio yn agos gyda'n partneriaid yn y cynradd er mwyn hwyluso'r broses pontio.